**Awdurdod Parc Cenedlaethol**

**8 Chwefror 2023**

Yn Bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd Mrs D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd Mrs V Thomas, Cynghorydd Mrs M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

Yn Bresennol (o bell)
Cynghorydd M James a'r Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall.

Roedd Matthew Brushett a Charles Rigby o Archwilio Cymru hefyd yn bresennol o bell fel arsylwyr.

[Ymunodd y Cynghorydd A Wilcox â'r cyfarfod o bell cyn ystyried yr adroddiad oedd yn rhoi Diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau a’r Datblygu Cynlluniau Cyflawni (gweler Cofnod 8).

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 11.30am; 11.40am – 1.35pm]

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R Owens. Roedd y Cynghorydd A Wilcox wedi rhoi gwybod y byddai'n ymuno â'r cyfarfod tua 11.30am.

2. **Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol (personol) ynghylch ei haelodaeth o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel ymddiriedolwr Plantlife. Roedd Dr M Havard a'r Cynghorydd M Wiggins ill dau wedi datgan buddiant personol yn Adroddiad 02/23 Cyllideb Ddrafft 23/24 fel cynrychiolwyr yr Awdurdod ar Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

3. **Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 i’w cadarnhau a’u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Rhagfyr 2022**.**

4. **Log Gweithredu**

Roedd yr Aelodau yn falch o weld bod Log Gweithredu wedi'i gynnwys ar yr Agenda, a nodwyd ei gynnwys.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd bod ambell i ddigwyddiad ffurfiol wedi bod ers y cyfarfod diwethaf, a'i bod wedi ymuno â rhai gwirfoddolwyr yng Nghastell Caeriw cyn y Nadolig oedd yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar lwybrau troed a gwrychoedd. Canmolodd y gwaith a wneir gan wirfoddolwyr ym mhob rhan o'r Awdurdod a diolchodd iddynt, ac anogodd yr Aelodau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli pe bai'r cyfle yn codi.

Bu cyfarfod o Gydbwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru pan gynrychiolwyd yr Awdurdod gan y Prif Weithredwr. Y prif faterion dan drafodaeth oedd y cais am statws Porthladd Rhydd, a diweddariad ar y Cynllun Ynni Rhanbarthol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod cytundeb Cyfethol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn dal heb ddod i fwcwl, a'i obaith oedd gallu cyflwyno adroddiad ar hyn yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod. Hefyd eglurodd nad oedd yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cyfraniad ariannol i'r Cydbwyllgor Corfforaethol yn y flwyddyn sydd i ddod.

Dywedodd y Cadeirydd bod ei chyfrifoldebau hi fel Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU wedi dod i ben ar ôl y Nadolig ac y byddai'n trosglwyddo'r awenau cyn hir i Tiffany Hunt yn Ardal y Llynnoedd. Ynghyd â Chadeiryddion Parciau Cenedlaethol eraill, roedd hi hefyd wedi bod yn rhan o ohebiaeth ynghylch cyllid DEFRA ar gyfer y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol fyddai'n cynyddu ffynonellau ariannol y Bartneriaeth a thrwy hynny o fudd i'r Awdurdod.

Yn olaf, cyfeiriodd at farwolaeth drist Caerwyn Roberts, cyn Gadeirydd APC Eryri am flynyddoedd lawer, fyddai'n ŵr cyfarwydd i nifer o'r Aelodau.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried/er gwybodaeth:

(i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2022 ac 18 Ionawr 2023;
(ii) Pwyllgorau Ieuenctid a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2022, 20 Rhagfyr 2022 a 10 Ionawr 2023.

Dywedwyd nad oedd dyddiadau ar y ddwy set gyntaf o gofnodion. Hefyd roedd Mrs S Hoss, sy'n mynychu'r cyfarfodydd fel cynrychiolydd yr Awdurdod pan yn bosibl, wedi rhoi crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnir gan y Parcmyn Ieuenctid a'r Pwyllgor Ieuenctid, a'r gobaith oedd y gellid trefnu cynnal gweithdy neu gyflwyniad i'r Aelodau gyda'r Pwyllgor Ieuenctid ar adeg gyfleus.

(iii) Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022

Gan gyfeirio at y cais am gostau staff cyn ac ar ôl yr ailstrwythuro, dywedodd rhai Aelodau eu bod wedi gobeithio am fwy o wybodaeth nag a gyflwynwyd yn y Gweithdy ar y Gyllideb fis Rhagfyr, a nodwyd hyn. Hefyd holwyd am siart ar yr ailstrwythuro lefel uchel, ac fe'u hysbyswyd y byddai fersiwn wedi'i diweddaru yn cael ei dosbarthu unwaith y byddai'r strwythur wedi'i gwblhau. Cadarnhawyd bod copi o'r cylchlythyr staff wedi'i anfon at bob Aelod. Yn olaf, nododd yr Aelodau bod nifer o staff wedi dewis peidio â datgan nodweddion gwarchodedig, a dywedodd y Rheolwr AD y byddai'n cyfathrebu ymhellach â'r staff i'w helpu i ddeall pwysigrwydd gwneud hynny.

(iv) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2023/24**

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 a'r rhagamcanion ar gyfer 2024/25 i 2025/26, yr ardoll 2023/24 drafft ar Gyngor Sir Penfro, y Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiadau Polisi ar Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn a Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24.

Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf Drafft 2023/24 a'r Rhagamcanion ar gyfer 2024/25 i 2025/26

O ran y cyllidebau ar gyfer 2023/24, roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth cyllideb yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r cyllidebau, ac fel yr oedd yr Aelodau wedi'u trafod yn flaenorol mewn gweithdy ar baratoi cyllideb. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Ariannol at y prif newidiadau a wnaed ers y gweithdy hwnnw, ac yn allweddol ymhlith y newidiadau hynny oedd cadw'r Grant Parc Cenedlaethol yn wastad am y dyfodol. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai'r sefyllfa refeniw am 2022/23 yn dangos gwarged o £55k, gyda'r rhesymau am hyn wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac roedd hyn yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa fwy ffafriol wrth symud ymlaen.

Dywedwyd bod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru am 2023/24 yn awgrymu y byddai'r Grant Parc Cenedlaethol i'r tri Parc Cenedlaethol yn

parhau ar yr un lefel â 22/23; disgwylir y gyllideb derfynol fis Mawrth 2023. Er y byddai'r Grant Parc Cenedlaethol/Ardoll disgwyliedig yn aros yn ddigyfnewid o’r swm yn 2022/23, nodwyd mai cyfanswm y gostyngiad rhwng 2010/11 a 2021/22 mewn termau arian parod oedd £285k. Hefyd pan gymhwysir y mynegai prisiau defnyddwyr, roedd y gostyngiad cyffredinol mewn termau real ers 2010/11 yn cyfateb i 36.5% neu tua £1.7m. Roedd dadansoddiad sensitifrwydd a rhagolygon wedi'u gwneud o ran y senarios a amlinellwyd gan roi’r sefyllfa bosibl yn y gyllideb refeniw hyd at 2026/27.

Roedd yr Awdurdod wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn y cyllid craidd dros y blynyddoedd diwethaf drwy wneud arbedion sylweddol yn y costau gweithredu, cynyddu incwm o ffynonellau eraill a denu grantiau penodol i brosiectau. Roedd yr incwm a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod wedi cynyddu £1,053k rhwng 2010/11 a 2021/22 gyda'r rhan fwyaf o’r ffynonellau incwm yn gwella. Darparwyd cyllideb refeniw gryno a manylach ar gyfer 2023/24 a nodwyd bod y gyllideb wedi'i mantoli drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn penodol a glustnodwyd. Fodd bynnag, disgwylir y byddai'r diffyg yn ystod 2023/24 hefyd yn cael ei reoli drwy wneud arbedion effeithlonrwydd ynghyd â ffrydiau incwm ychwanegol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi’r Rhaglen Gyfalaf am 2023/24, oedd yn rhagweld gwariant o £994,500, gyda’r rhan fwyaf o’r prosiectau yn cael eu hariannu gan gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Yr eitem fwyaf o wariant oedd y prosiect ailddatblygu’r Ystafell Werdd, ac roedd y prosiect hwnnw a sawl eitem arall wedi’u cario ymlaen o flynyddoedd blaenorol.

O ran y cronfeydd wrth gefn a’r balansau, rhagwelwyd y byddai’r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 yn £1,196k ac yn parhau ar y lefel hon tan ddiwedd 2023/24. Yn ogystal, byddai’r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn yn cael ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf yn rhannol ac felly disgwylir i’r gronfa honno ostwng o £221k ar ddiwedd 2022/23 i £34k erbyn diwedd 2023/24, gyda disgwyl i’r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd hefyd ostwng i £2,985k erbyn diwedd yr un cyfnod.

Cytunodd yr Aelodau bod yr adroddiad yn un sobreiddiol ac na ellid diystyru'r posibilrwydd o leihad yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylid gosod targedau effeithlonrwydd a chynhyrchu incwm. Dywedodd y Prif Weithredwr bod arian wrth gefn yr Awdurdod yn rhoi amser i fynd i'r afael â'r broblem, a rhan o'r ateb oedd penodi staff gyda mwy o olwg ar godi arian, ond byddai'n cymryd amser i hyn ddwyn ffrwyth. Gofynnwyd nifer o gwestiynau eraill yr oedd y swyddogion wedi medru eu hateb yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cyllideb Ddrafft 2023/24, yn amodol ar nodi nad oedd y grant Parc Cenedlaethol/Ardoll wedi'i gadarnhau eto, a nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2024/25 i 2026/27.

Ardoll ar Gyngor Sir Penfro
Atgoffodd y Prif Swyddog Ariannol yr Aelodau bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, is-adran 3, yn pennu'r modd y dylid cyhoeddi'r ardoll i'w chodi ar Gyngor Sir Penfro (CSP). Roedd y datganiad canlynol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod ar ddeall bod CSP wedi derbyn swm o arian gan Lywodraeth Cymru oedd yn cyfateb i'r ardoll a godir arnynt.

**Ardoll ar Gyngor Sir Penfro**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Rhaid i'r Awdurdod awdurdodi codi ardoll o £1,083,329 oddi wrth Cyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 OS 1995 Rhif 3019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru)(Diwygio) 1996:

| | | |
|---|---|---|
| • y swm fydd ei angen i dalu am wariant yr Awdurdod yn y flwyddyn dan sylw yn y cyfrif Refeniw yw | | £6,798,258 |
| • gwneud y ddarpariaeth sy'n briodol i dalu am hapddigwyddiadau, a'r gwariant hwnnw i'w dalu o'r Cyfrif Refeniw | | £ Dim |
| • y swm sydd ei angen i sicrhau bod gweddill digonol gan yr Awdurdod yn ei Gyfrif Refeniw | | £Dim |
| • y swm sydd ei angen ar yr Awdurdod i dalu am unrhyw ddiffyg a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol | | £Dim |
| | | ----------- |
| Is-gyfanswm | | £6,798,258 |
| YN LLAI O | | |
| • Grant Adran 72 (GPC) | £3,249,986 | |
| • Incwm a gredydir i'r Cyfrif Refeniw | £2,464,943 | |
| • symiau eraill heb eu cynnwys uchod sy'n debygol o fod ar gael yn ystod y flwyddyn | - | £5,714,929 |

------------------------

**Yr ardoll sy'n ofynnol** **<u>£1,083,329</u>**

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn awdurdodi ardoll o £1,083,329 (neu swm priodol arall a benderfynir ar ôl derbyn cadarnhad am y cyllid net a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru) ar Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2023/24**.**

<u>Dangosyddion y Cod Darbodus a Strategaeth Fuddsoddi 2022/23</u>
Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Materion Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) wrth bennu cyllidebau blynyddol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cyngor y Prif Swyddog Ariannol o ran pennu rhaglen buddsoddi cyfalaf sy'n fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, fel y nodwyd yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw. Nodwyd nad oedd yr Awdurdod wedi defnyddio benthyca i ariannu prosiectau.

Aeth yr adroddiad ymlaen i gyflwyno'r Polisi Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn 2023/24 a'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Rheoli'r Trysorlys am 2023/24, oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol ac yn ategu'r system benthyca darbodus.

O ran y Polisi Cronfeydd Ariannol wrth Gefn, awgrymwyd y dylid ystyried aralleirio adran 3 - balansau gweithio i amlygu'r ffaith bod gan yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd nad oedd angen eu hailgyflenwi ar ddiwedd y flwyddyn. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gellid defnyddio'r geiriau 'llinell sylfaen' i roi'r eglurhad hwnnw. Aeth y polisi ymlaen i amlinellu'r tybiaethau risg a ddefnyddiwyd i bennu lefel y cronfeydd wrth gefn, a gofynnodd un Aelod am i'r rhain gael eu gwirio yn erbyn Cofrestr Risg yr Awdurdod i sicrhau nad oeddent yn gweithio'n groes i'w gilydd.

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn **MABWYSIADU'R** Dangosyddion Materion Ariannol fel y'u cyflwynwyd, ac yn **CYMERADWYO'R** Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys am 2023/24, a'r Polisi Cronfeydd Ariannol wrth gefn yn amodol ar ychwanegu'r geiriau 'llinell sylfaen' ac ar groes-wirio'r rhagdybiaethau risg.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.30am a 11.40am.]

[Ymunodd y Cynghorydd A Wilcox â'r cyfarfod yr adeg hon.]

**8. Diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ac ar Ddatblygu Cynlluniau Cyflawni**

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar amserlen y cynlluniau a enwir uchod, gan egluro y byddai'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2022/23 a'r fframwaith perfformiad yn y cyfnod pontio yn cael eu cario ymlaen i chwarteri 1 a 2 o 2023/24, a'r cynllun yn cael ei ddisodli drwy greu Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023 – 2026. Y bwriad oedd cyflwyno'r cynllun hwn gerbron yr Aelodau am sylwadau yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Mehefin 2023 gyda'r cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Gorffennaf 2023, pan fyddai fframwaith perfformiad newydd yn cael ei roi ar waith.

Nodwyd y byddai'r cyfnod 2023-26 yn sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yn cyd-fynd â'r amserlenni yn y cynlluniau cyflawni ac yn rhoi ffocws traws blwyddyn. Byddai'r Cynllun, ynghyd â'r cynlluniau cyflawni, yn cael eu hadolygu yn llai manwl bob blwyddyn yn ystod y cyfnod hwn, gydag adolygiad manylach ar ôl i Gynllun Rheoli newydd y Parc Cenedlaethol gael ei gymeradwyo yn 2024.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r diweddariad, a nodwyd y byddai amseriad cynhyrchu'r Cynlluniau Cyflawni yn cyd-fynd ag amseriad y Cynllun Corfforaethol Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal fyddai'n cael eu cynhyrchu fis Ebrill. Hefyd eu gobaith oedd y byddai'r cynlluniau yn canolbwyntio ar amcanion yr Awdurdod, a bod y modd y mae'r rhain yn cyfrannu at ddeddfwriaeth arall yn llinyn eilaidd, ac y byddai'r modd o gyflawni'r amcan o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru yn benodol yn cael eu hamlygu yn glir ym mhob un o'r Cynlluniau Cyflawni. Roedd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth wedi sicrhau'r Aelodau y byddai'r cynlluniau yn canolbwyntio ar y "4 C" oedd yn cynnwys amcanion yr Awdurdod gyda datganiad ar y modd y byddai'r amrywiol themâu trawsbynciol yn cael eu cyflawni.

**Nodwyd.**

**9. Croeso Sir Benfro**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi cytuno fis Chwefror 2020 i gefnogi sefydlu Croeso Sir Benfro fel Sefydliad annibynnol i Farchnata Sir Benfro fel Cyrchfan drwy benodi Cyfarwyddwr yn aelod o'r Bwrdd, a chytundeb o gymorth ariannol, mewn arian parod ac mewn da. Nodwyd bod yr Awdurdod, fis Medi 2021, wedi cytuno i newid yr ariannu am y flwyddyn honno o gymorth mewn da i arian parod fel bod gan Croeso Sir Benfro arian cyfatebol i sicrhau cyllid grant. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd pennu'r modd o roi cymorth mewn da wedi bod yn her.

Dywedwyd mai'r brif her a wynebir gan Croeso Sir Benfro ar hyn o bryd oedd denu digon o aelodau i wneud y sefydliad yn ariannol hyfyw, ac nad oedd hon yn dasg yr oedd yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i'w chynnal drwy ei gyfraniad mewn da. Yn wyneb hyn derbyniwyd cynnig gan Croeso

Sir Benfro i newid y cyfraniad am y flwyddyn gyfredol o gyfraniad mewn da o £34,900 i gyfraniad arian parod o £25,000 er mwyn ymgymryd â rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddenu aelodau newydd. Er mwyn hwyluso cynllunio tymor hwy, cynigiwyd newid y cyfraniad mewn da o £34,900 y cytunwyd arno i gyfraniad ariannol o £25,000 ar gyfer 2023 - 2024 a 2024-2025. Byddai hyn ar yr amod bod yr arian yn cael ei wario ar ddatblygu sylfaen aelodaeth Croeso Sir Benfro, gan gyfrannu felly at ei wneud yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor. Er mwyn sicrhau hyn, cynigiwyd gwneud cytundeb sy'n canolbwyntio ar berfformiad gyda Croeso Sir Benfro lle byddai taliadau yn cael eu hadolygu, bob chwe mis, a'u cysylltu â chyrraedd targedau aelodaeth. Pe na bai'r targedau hyn yn cael eu cyrraedd, byddai'r taliad o bosibl yn cael ei atal.

Eglurodd y Cadeirydd, yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o Fwrdd Croeso Sir Benfro, ei bod yn aelod o'r Is-grŵp Aelodaeth a oedd yn allweddol i hyrwyddo'r twf mewn aelodaeth, ac y byddai'n monitro’r cynnydd.

Roedd  yr Aelodau o’r farn bod hwn yn gais rhesymol a phriodol, fodd bynnag byddent wedi hoffi cael rhagor o wybodaeth am yr aelodaeth bresennol a'r targedau twf; y gobaith oedd bod y cynnig am aelodaeth yn ddeniadol gan fod hynny yn hanfodol. Hefyd gofynnwyd am i gopi o'r cyfrifon gael ei ddosbarthu.

**Penderfynwyd**:

a) newid y cymorth a roddir i Croeso Sir Benfro am y flwyddyn 2022-23 o gyfraniad mewn da o £34,900 i gyfraniad arian parod o £25,000 er mwyn gweithredu cynnig i ddenu aelodau newydd; a

b) am y blynyddoedd 2023 – 2024 a 2024 – 2025 bod y cyfraniad mewn da o £34,900 i Croeso Sir Benfro yn newid i daliad o £25,000 y flwyddyn. Byddai'r taliad hwn yn seiliedig ar gytundeb yn ôl perfformiad lle byddai taliadau yn cael eu hadolygu bob chwe mis a'u cysylltu â chyrraedd targedau aelodaeth. Pe na bai'r targedau hyn yn cael eu cyrraedd, byddai'r taliad o bosibl yn cael ei atal.

**10. Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Daliadau Meysydd Parcio**

Atgoffwyd yr Aelodau y penderfynwyd yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod fis Rhagfyr 2022 i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried darparu tocynnau tymor a thaliadau meysydd parcio ar draws meysydd parcio yr Awdurdod yn y dyfodol. Roedd Cylch Gorchwyl drafft y Grŵp wedi'i atodi i'r adroddiad, ac roedd y rhain yn awgrymu cyfanswm aelodaeth o 6 (4 Aelod a benodir gan y Cyngor Sir a 2 Aelod a benodir gan Lywodraeth Cymru), gyda chymorth Swyddogion. Roedd datganiadau o ddiddordeb i fod yn aelod o’r Grŵp eisoes wedi dod i law oddi wrth Mr G Jones, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd P Morgan, Dr R Plummer a’r Cynghorydd C Williams.

Roedd rhai newidiadau a awgrymwyd i'r Cylch Gorchwyl hefyd wedi dod i law, gan gynnwys ychwanegu maen prawf arall at rôl/diben y grŵp o 'gynnig unrhyw fewnwelediad ac awgrym arall a ystyrir sy'n berthnasol'. Croesawyd y pwynt hwn gan yr Aelodau gan y byddai'n caniatáu ystyriaeth fwy cyfannol o'r polisi meysydd parcio ar draws yr Awdurdod. Eglurodd y swyddogion hefyd y byddai argymhellion y Grŵp yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod, gobeithio yn yr Hydref, oherwydd yr amser sydd ei angen i weithredu'r newidiadau cyn y tymor nesaf o godi tâl.

Yn y cyfarfod dywedodd y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall ei bod hithau hefyd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn Aelod o'r grŵp. Fodd bynnag gan fod y 6 Aelod a argymhellir eisoes wedi'i gyrraedd, cytunodd i dynnu ei chais yn ôl. Anogwyd pob Aelod i gyflwyno syniadau i Aelodau'r Grŵp neu i'r Swyddog Ystadau.

**Penderfynwyd**:
a) cytuno ar y Cylch Gorchwyl a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad ac a ddiwygiwyd yn y cyfarfod; a
b) chytuno ar aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, sef Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd P Morgan, Dr R Plummer a'r Cynghorydd C Williams.

**11. Eithrio'r Cyhoedd**
**Penderfynwyd**:
a) gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu; a
b) caniatáu i'r Archwilwyr sy'n mynychu'r cyfarfod barhau yn y cyfarfod ac arsylwi gweddill y cyfarfod.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd M James a gadawodd y cyfarfod cyn cynnal pleidlais ar yr eitem ganlynol.]

**12. Adolygu'r Trefniadau o Reoli Gweithgareddau Hamdden ar Draeth Trefdraeth**
Atgoffwyd yr Aelodau bod y mater hwn wedi'i drafod yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Hydref ac roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y camau a gymerwyd.

**Penderfynwyd** cytuno ar yr argymhelliad a nodir yn yr adroddiad.

**13. Eitem frys**
Cytunodd y Cadeirydd, yn unol ag Adran 100B(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid ystyried yr eitem ganlynol fel mater o frys.

**14. Syndrom Dirgryniad Braich Llaw**
Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa bresennol, ac eglurwyd nifer o bwyntiau gyda'r swyddogion.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023:

Eglurwyd bod y paragraff yn dilyn cofnod 6(ii) yn cyfeirio at gofnodion y Pwyllgor Ieuenctid, ac nid y Pwyllgor Rheoli Datblygu y cyfeiriwyd ato yng nghofnod 6(i).